Llosgi'r tŷ gwair 1847–1931

(penderfyniad / dyfalbarhad / byw er mwyn eraill)

"Os gwn ni beth fyddai'n digwydd petawn i'n rhoi'r tŷ gwair ar dân?" gofynnodd Thomas, y bachgen bach chwe blwydd oed. Ddywedodd o ddim gair wrth ei rieni na'i ffrindiau. Un noson, penderfynodd ei fod am danio'r tŷ gwair a gweld beth fyddai'n digwydd. Digwyddodd dau beth. Llosgodd y tŷ gwair yn ulw. A chafodd Thomas chwip din orau ei fywyd gan ei dad.

Ymhen deng mlynedd ar hugain roedd Thomas Edison yn un o wyddonwyr blaenllaw ei gyfnod. Cymeriad penderfynol oedd Edison fel y gwelsom pan roddodd y tŷ gwair ar dân. A phenderfynol a fu gydol ei fywyd. Pan ddywedodd ei fod am gynhyrchu golau trydan roedd gwyddonwyr eraill yn ei rybuddio i beidio â gwastraffu'i amser. "Mae hyn yn gwbl amhosibl," meddai un gwyddonydd. "Cwbl amhosibl," meddai un arall, "mae hyn yn mynd yn gwbl groes i ddeddfau natur." Anwybyddodd Edison y gwyddonwyr i gyd ac aeth yn ei flaen gyda'i arbrofion. Bu wrthi'n darllen pob llyfr oedd ar gael a gwnaeth nodiadau manwl. Ymhen dim roedd wedi llenwi dros ddau gant o lyfrau nodiadau!

Ar ôl misoedd o arbrofi ar ei ben ei hun daeth llwyddiant iddo. "Os gwn i beth wnaiff ddigwydd petawn i'n anfon y cerrynt trydanol drwy'r wifren denau yma o fetel?" Ddigwyddodd dim byd ar y cychwyn. Bu wrthi'n ddyfal ac yna, un diwrnod, dechreuodd y metel oedd yn cael ei gynhesu gan y cerrynt trydanol ddechrau gloywi. "Da iawn!" meddai, "dyma fi wedi llwyddo i greu goleuni nad oes neb arall yn y byd wedi'i weld o'r blaen." Felly dyma fynd ati i gymryd gwahanol fetelau a'u torri i lawr yn ddarnau tenau.

Rhoddodd y darnau wrth ei gilydd ac anfon cerrynt drwyddyn nhw. Ond doedd fawr o oleuni yn cael ei greu ac yn fuan iawn roedd y trydan wedi llosgi'r metelau. Aeth y misoedd heibio ac yntau ddim nes i'r lan. Ond gwyddai fod yna fetel fyddai'n ddigon cryf i wrthsefyll gwres y cerrynt trydan.

Bu'n arbrofi â channoedd o ddefnyddiau – o gardfwrdd i'r gwallt dynol! Dyna fu bywyd Edison am fisoedd ar fisoedd. Arbrofi efo pob math o ddefnyddiau. Un diwrnod, pan oedd yn mynd am dro o gwmpas yr ardd, gwelodd lwyn o fambŵ yn tyfu yn y gornel.

Daeth syniad iddo! Beth am risgl y bambŵ! Yn araf, torrodd stribedi o'r bambŵ a'u rhoi mewn bwlb gwydr. Roedden nhw'n

ddigon gwydn i wrthsefyll gwres y trydan! Llwyddodd o'r diwedd i gynhyrchu goleuni trydan.

Ond, un peth oedd gwneud yr arbrawf yn ei labordy yn Efrog Newydd, felly beth am ddefnyddio golau yn nhai pobl y fro. Wynebodd fwy o broblemau yn awr! Doedd dim ffatrïoedd yn cynhyrchu'r defnyddiau pwrpasol ar ei gyfer. Bu'n rhaid iddo fynd ati i hyfforddi'r gweithwyr eu hunain sut i gynhyrchu'r defnyddiau. Yna bu'n rhaid tyrchu'r strydoedd yn Efrog Newydd i osod y gwifrau iddynt gyrraedd y tai. Ond roedd problem arall! Roedd rhaid dyfeisio mitr i weld yn union faint o drydan roedd pob tŷ yn ei ddefnyddio.

A dim ond un dyn oedd yn gwybod sut i wneud hyn i gyd a hwnnw oedd Thomas Edison ei hun. Weithiau byddai'n gweithio drwy'r nos, heb fawr o gwsg, i geisio datrys ei broblemau. Ac os byddai'n cael awr neu ddwy o gwsg byddai'n gwneud hynny ar lawr y ffatri. Ond daeth y dydd – y diwrnod pan oleuwyd Efrog Newydd i gyd.

Trwy gydol ei fywyd bu'n arbrofi i geisio gwella cyflwr pobl ac fe wnaeth hynny'n llwyddiannus iawn. Pan fyddwch yn cynnau'r golau yn y tŷ heno cofiwch am Thomas Edison.

Adnod: "A dywedodd Duw, 'Bydded goleuni.' A bu goleuni. Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda." Genesis 1:3,4

Gweddi: O Dduw, pan fo tywyllwch yn cau amdanaf rho i mi dy oleuni di. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi 'dal ati' i'r gwyddonydd?
- Trafodwch y ddelwedd o "oleuni" ym mywydau pobl.